

**Stori Esme Crowe**  
**Ail yn Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro, 2013**  
**Fy hoff encil**

Wel, mae'r rhaglen deledu yna wedi dod ag atgofion yn ôl – y ferch ifanc yn ei hoff encil. Roedd gen i hoff encil pan oeddwn i'n ifanc hefyd. Dwi'n dal i gofio tŷ llais fy Mam pan ddywedodd

“Fe fydd fel gwyliau a byddwch yn ôl yma erbyn y Nadolig.”

Dwi'n cofio gofyn i fy Mam dro ar ôl tro lle oeddwn i'n mynd. Wrth gwrs, doedd hi ddim yn gwybod, ddim mwy nag oeddwn i.

Wrth i mi ddilyn yr athrawon a'r facîwis eraill allan o'r iard a lawr y lôn tuag at yr orsaf drên, sylwais ar Mam yn sefyll yng nghanol y mamau eraill. Chwifiais arni. Ond welodd hi ddim mohonof fi yng nghanol yr holl blant. Torrodd hynny fy nghalon i, yn enwedig ar adeg mor anodd wrth adael teulu, ffrindiau ac ardal leol.

Roedd fy nghartref newydd yn wahanol iawn i fy nghartref yn Llundain. Roeddwn i wedi arfer gyda adeiladau uchel, sŵn ceir a phobl ym mhobman, lonydd llydan a bysus dau lawr coch. Roedd fan hyn yn dawel, heddychlon a llongydd. Blodau, coed ac adar bach yn trydar. Lonydd cul, nadreddog gyda beicwyr, cerddwyr ac ambell yrrwr, bythynnod a thai bach twt. Siopa cartref fel becws, post a chigydd; ardal llawn prydfferthwch.

Fy hoff encil i oedd gyda'r moch ar Fferm Bont Uchaf. Fy noddfa yn ystod y chwe blynedd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Doeddwn i erioed wedi gweld anifail bach pinc, gyda phedair coes a chynffon cyrliog o'r blaen. Ond, wir i chwi roedd rhain fel ffrindiau neu hyd yn oed yn well. Roeddwn yn eistedd am oriau yn fy hoff encil ac yn meddwl am bopeth o dan yr haul. Meddyliwn yn aml am y daith trên hir a diflas. Dwi'n cofio meddwl pa mor fudr oedd y trên. Doedd dim hyd yn oed toiledau arno, ac roedd hynny yn dipyn o beth i hogan fach fel fi. Hwn oedd y tro olaf hefyd i mi weld fy mrawd a'm chwaer am chwe blynedd. Yn aml, dechreuwn grio wrth gofio amdanynt. Roeddwn yn poeni a meddwl am lle oeddent wedi mynd? Oeddent hwy'n fyw? Oeddent hwy'n hapus? Be oeddent yn ei wneud?

Roedd fy amser ym mhentref Glanffynnon yn hapus iawn. Roeddwn yn saff yno. Yn saff oddi wrth yr holl beryglon a bygythiadau'r bomio. Roeddwn i'n lwcus iawn hefyd oherwydd roedd gan y teulu hen lyfrau eu plant, ac felly roedd gen i ddigon i ddarllen er bod llyfrau yn brin yn ystod y rhyfel. Roedd ambell un diddorol ond fy ffefryn i oedd Trip i'r Lleuad. Roedd yn swnio'n hollol hurt gan nad oeddwn i byth yn meddwl y byddai person yn cyrraedd y lleuad. Er hynny, yn nes ymlaen yn fy oes i, fe ddigwyddodd hyn! Eisteddais gyda'r moch am oriau yn darllen iddynt, er nad oeddent ddim callach!

Roedd llwythi o ddyletswyddau gen i ar y fferm. Roeddwn yn bwydo'r ieir, garddio ac ati; cadw fy hun yn brysur! Dwi'n siŵr bod hyn wedi fy helpu i setlo ac i fwynhau fy hun ychydig. Tyfais yn agos i'r gŵr a'r wraig oedd yn byw ar y fferm, heb anghofio'r anifeiliaid oll, yn enwedig fy hoff fochyn, Jimeima Jen!

Pan ddaeth yr alwad bod y rhyfel drosodd ac ein bod yn gorfod mynd adref, roeddwn i'n emosiynol oherwydd roeddwn wedi gwneud ffrindiau ac yn mwynhau fy hun yno. Pan gyrhaeddais yn ôl i Lundain, nid oedd yn teimlo fel adref. Roedd adeiladau wedi eu chwalu a'r holl awyrgylch wedi newid. Doedd fan hyn ddim yn gartref mwyach a threuliais lawer o amser yn meddwl ac yn hel atgofion am fy hoff encil, gyda'r moch ar Fferm Bont Uchaf. Bum i'n hir iawn yn ymgartrefu nôl yn Llundain ac hyd heddiw dwi'n dal i hiraethu am gael bod yn ôl gyda Jimeima a'i chriw ar Fferm Bont Uchaf.